

Cylchlythyr Blynyddol 2020-2021

Annwyl Aelod,

2020: Wel am flwyddyn! Roeddem yn fawr feddwl adeg y cyfarfod a'r cinio blynyddol ym mis Chwefror llynedd, y byddem mewn cyfnod clo cenedlaethol chwe wythnos yn ddiweddarach. Mae'r pandemig byd-eang gyda ni o hyd ac fe'n gorfodwyd i ohirio'r cyfarfod blynyddol a'r cinio am y tro a chreu cylchlythyr newydd sbon.

Am y tro cyntaf erioed cynhaliwyd pwyllgor y pum sir yn rhithiol ar Zoom a fu'n brofiad newydd ond cyffrous i ni gyd. Yn anffodus bu'n rhaid canslo sioeau'r haf a'r Sioe Fawr yn Llanellwedd. Diolch i'r sioeau bach a mawr gynhaliodd sioeau rhithiol ar-lein gan gadw'r bwrlwm cystadlu'n fyw. Bu pryder yn ystod yr haf na fyddai modd cynnal yr arwerthiannau mamogiaid a hyrddod yn eu ffurf arferol yn ystod yr hydref. Diolch i gynllunio manwl yr arwerthwyr, cynhaliwyd y cyfan yn hwylus iawn a bu'n dymor da i werthu wŷn tew a stôr, wyn benyw, defaid magu a hen ddefaid a hyrddod i ni gyd.

## Arwerthiannau 2020

Dyma ychydig o uchafbwyntiau eleni;

### Sêl Dinbych @ Llanrwst

Llwyddwyd i werthu 104 o'r 134 o'r hyrddod a hynny am gyfartaledd o 1,280 gini gyda 30 yn gwerthu am dros 1,000 gini'r un.

- 1.) Gwerthodd Gwynfor a Beryl Williams Ty Newydd Pennant Hwrdd Blwydd am 10,000 gini yn rhannog rhwng Ken Owen Tyddyn Mawr ac H. P. Roberts, Gyrn, Llanuwchllyn, Bala.
- 2.) Ty Newydd Pennant hefyd yn cipio'r ail bris uchaf am hwrdd a werthodd am 8,100 gini i E. L. ac M. L. Evans, Grugor Isa, Bylchau, Dinbych.
- 3.) Gwerthwyd hwrdd gan T. G. Evans a Rhys ap Gwyndaf, Hafod Dinbych, Pentrefoelas am 7,000 gini i D. G. Jenkins, Tanrallt, Tal-y-bont, Ceredigion.



### Sêl Arfon @ Llanrwst



O'r 158 hwrdd oedd yno llwyddwyd i werthu 134 ohonynt am gyfartaledd o 825gini gydag 20 hwrdd yn gwerthu am dros 1,000 gini.

- 1.) Gwerthwyd hwrdd o eiddo I. R. Williams, Tairmeibion, Talybont, Bangor am 9,000 gini i H. W. Nutting, Cwmrhwyddfor, Tallyllyn, Tywyn.
- 2.) Cafwyd pris o 5400 gini am hwrdd o eiddo T. T. Roberts ai Gwmni, Bryn Cynhadledd, Llanbedr, Conwy ac a werthwyd i H. Davies, Cefn Coed, Maenan, Llanrwst.
- 3.) Gwerthwyd hwrdd gan H. Davies, Cefn Coed, Maenan, Llanrwst am 5,300 gini i I. R. Williams, Tairmeibion, Talybont Bangor.

## Sêl Meirionydd @ Dolgellau

O'r 220 hwrdd i'w werthu llwyddwyd i werthu 165 am gyfartaledd o 1,147 gini gyda 16 hwrdd yn gwerthu am dros 3,000 gini.

- 1.) R. J. Roberts a'i Fab, Dysefin gipiodd y pris uchaf am hwrdd blwydd yn gwerthu am 11,400 gini ac a brynwyd gan H. W. Jones, Llwynsarn, Rhydymain.
- 2.) Yr ail bris uchaf oedd 10,000 gini am hwrdd blwydd wedi ei fagu gan M. Jones, Darngae, Trawsfynydd ac a brynwyd gan G. Williams a'i Ferch, Ty Newydd Pennant.
- 3.) Cipiwyd trydydd pris gorau'r diwrnod o 9,000 gini gan H. W. Jones, Llwynsarn ac a werthwyd i T. T. Roberts, Bryn Cynhadledd.



Teulu Cwmrhwyddfor oedd â'r cyfartaledd uchaf ar gyfer yr arwerthiant gan lwyddo i werthu pob un o'r 8 hwrdd am bris cyfartalog o 2,968.75 gini.

## Sêl Maldwyn a Cheredigion @ Dolgellau

Gwerthwyd 103 o'r 110 hwrdd ar y diwrnod – cyfradd gwerthu arbennig o 93%.

- 1.) Hwrdd blwydd o eiddo E. W., M. M. & D. Jenkins, Ty'n y Graig, Tal-y-bont gipiodd y pris uchaf gan werthu am 6,000 gini i B. Owen, Tai Pella.
- 2.) E. W., M. M. & D. Jenkins, Ty'n y Graig gipiodd ail bris uchaf y diwrnod hefyd gyda hwrdd blwydd yn gwerthu am 4,500 gini i G. L. a L. S. Jones, Cwm y Geifr.
- 3.) Y trydydd pris gorau oedd 2,600 gini am hwrdd o eiddo G. a L. Jones, Maes y Cilyn a werthwyd i D. B. & E. D. Evans, Penyglog.



## Sêl Llangollen

O ganlyniad i Covid-19 bu'n rhaid symud y sêl a'i chynnal am y tro cyntaf ym mart Croesoswallt ac mae'n debygol iawn y bydd y sêl yn parhau yno.

Pris uchaf y diwrnod oedd 1,000gini am hwrdd gan Gwyndaf Evans, Hafod Dinbych a werthwyd i Deulu Defaidty.



## Gwobrau

Llongyfarchiadau i Gwynfor a Beryl Williams, Ty Newydd Pennant, Gwytherin ar enill y darian am gyfartaledd pris uchaf y seli hyrddod a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol, tipyn o gamp! Yn anffodus nid oes modd cyflwyno tarian 'Hwrdd y Flwyddyn' eleni.

Diolch i gwmni tagiau Roxan am ei nawdd o £400 tuag at arwerthiannau hyrddod Dolgellau. Penderfynwyd canolbwyntio ar yr ail sêl a llongyfarchiadau i'r tri phrynwr llwyddiannus ddaeth eu henwau allan o'r het gan dderbyn gwobrau fel a ganlyn; £125 - Jones, Pant y March, Bala; £75 - Pugh, Blaencywarch, Llanymawddwy a £50 - Jones, Cadwst Mawr, Llandrillo.

Diolch hefyd i'r cwmni am gynnig gwerthu tagiau i aelodau'r Gymdeithas Defaid Mynydd am ei pris gostyngol, gweler y pamffled atodedig. Cysylltwch â Dei Williams am ragor o fanylion.

## Hyrwyddo Blas



Yn ystod y flwyddyn gwnaed camau i hyrwyddo cig mynydd Cymreig ar sail ei flas. Bu criw o aelodau yn lladd-dy Kepak ym Merthyr ddechrau'r flwyddyn gan ddechrau trafodaethau am greu cytundeb unigryw a hyderwn y bydd modd parhau'r trafod yn 2021.

Mewn cydweithrediad gyda HCC cynhaliwyd cyfarfod zoom yn ddiweddar i ddysgu mwy am ei cynllun 'Ansawdd Cig Oen Cymru' sy'n rhoi pwyslais ar ŵyn wedi eu magu ar borfa gan eu bod yn naturiol uwch mewn mwynau e.e. haearn, omega 3 a zinc.

## Logo Newydd!

Derbyniwyd cyllid gan Cywain ar gyfer gwaith brandio a dyma flas o'r gwaith hyd yma.

Unwaith y bydd y logo wedi ei gwblhau bydd ar gael at ddefnydd holl aelodau'r gymdeithas, boed hynny wrth roi oen i gymydog neu wrth fân-werthu.



## Ennill 2 seren yn y gwobrau gwir flas

Un o brif uchafbwyntiau eleni oedd gweld coes oen y gymdeithas yn ennill 2 seren yn y gwobrau gwir flas. Hoffem ddiolch i Glyn Williams (Cae Poeth) am fodloni i gyflenwi oen i'r achlysur ond o ganlyniad i ganslo'r digwyddiad ar y funud olaf nid fu modd i ni ei ddefnyddio. Diolch arbennig i griw sir Arfon ac i Eifion, Ann a Wiliam Williams, Hendre Hywel am ddarparu coes oen pan ail drefnwyd y digwyddiad. Fe'i lladdwyd yn Lladd-dy Cae Iago a'i hongian am 9 niwrnod cyn ei yrru i Dorset. Dyma'r adborth :

## Welsh Mountain Sheep Society Lamb - Leg of Lamb




2-Star

*Glorious aroma, smells like Sunday lunch and fills us with anticipation. Sticky, succulent meat with excellent fat and skin. That fat has melted into the meat and rendered it so moist. The flavour is heading towards hoggett, being so deep and rich. The taste of this lingers and is supremely satisfying. Really, this is how meat should be.*

*Rich, delicious lamb, with a beautiful clean sweet flavour and a wonderful texture. It's not too fatty, yet it has basted itself to delicious tenderness. There is an intrinsic, saline mineral quality to the flavour. And the meat round the knuckle - wow! - it's so soft and packed with flavour, it could almost be confit.*

*Beautifully cooked leg of lamb with appealing savoury aromas and the appearance of moist and succulent meat. Buttery flesh with a rich balanced level of lambiness. Sweet, grassy notes with herbal tones and a clean and fresh finish. Especially rich, satisfying, savoury complexities in the meat around the bone.*



Canmoliaeth uchel am rinweddau arbennig a fydd gobeithio yn sicrhau bod cig oen mynydd yn dod yn fwy poblogaidd ar blatiau ac mewn ceginau ar draws Cymru.

## **Cynlluniau 2021**

Er ei bod yn anodd iawn o dan yr amgylchiadau presennol i fedru cynllunio ymlaen yn nôl ein harfer, ni allwn er hynny aros yn yr unfan. Rhaid parhau i ddatblygu a bod yn weithgar er mwyn sicrhau Cymdeithas hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol.

Yn 2021 rydym am anelu i gyflawni'r canlynol:

- Byddwn yn parhau i weithio ar hyrwyddo blas;
- Cynnal ein Dydd Agored yng Nghae Poeth, Llanuwchllyn yn ystod mis Medi os bydd amgylchiadau yn caniatáu hynny;
- Byddwn yn creu offer dehongli newydd ar gyfer y gymdeithas;
- Byddwn yn ailwampio'r wefan.

## **Diolch**

Diolch i Elain am ei brwdfrydedd ac am y cyd-weithio hwylus. Llongyfarchiadau mawr iddi hi a Guto ar enedigaeth mab bach Celt nôl ym mis Gorffennaf a phob hwyl i'r teulu yn eu cartref newydd ym Mhontllyfni.

Cofion cynnes a dymuniadau gorau i chi oll.

**Beryl Evans,**

**Cadeiryddes.**